

ASTUDIAETH IAWNDAL GWAED HEINTIEDIG

DATGANIAD PROSES

gan

Syr Robert Francis CF

Cefndir: mae'r ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol am gylch gorchwyl fy Astudiaeth bellach wedi'i gwblhau ac rwyf wedi cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd¹. Mae'r Tâl-feistr Cyffredinol², ar ran Llywodraeth y DU, wedi derbyn fy argymhellion ar gyfer diffiniad diwygiedig o gylch gorchwyl yr Astudiaeth a ddaeth o'r broses ymgynghori honno. Nawr, mae angen i mi edrych ar y cam nesaf o waith yr Astudiaeth ac ystyriaf y byddai'n briodol i mi roi datganiad sy'n disgrifio sut rwyf yn bwriadu mynd â cham nesaf ei gweithgareddau yn ei flaen. Mae'r datganiad hwn yn rhoi trosolwg cyffredinol o sut a phryd rwyf yn rhagweld y bydd y gwaith yn parhau a natur yr ymgysylltiad parhaus yr hoffwn ei gael gyda'r gymuned heintiedig, y gymuned sydd wedi'i heffeithio a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Camau nesaf: cam nesaf yr Astudiaeth, sydd eisoes ar y gweill, yw cyfnod dwys o gasglu gwybodaeth a gwaith dadansoddi manwl. Bydd y gwaith hwn yn cwmpasu nifer o feysydd proses eang ac allweddol:

- adolygu tystiolaeth bresennol a gyflwynwyd eisoes ac a ryddhawyd fel rhan o waith yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig;
- datblygu dealltwriaeth gan y Llywodraeth (gan gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig) a'r cynlluniau cymorth presennol o sut y mae prosesau cyfredol a hanesyddol wedi (a heb) ymateb i anghenion y buddiolwyr bwriadedig;
- archwilio seiliau rhesymegol cyfreithiol a damcaniaethol ar gyfer amrywiaeth o ddulliau posibl, a'u goblygiadau, gan fanteisio ar arbenigedd cyfreithiol ac ymchwil academiaidd ehangach lle bo angen; a
- cheisio barn bellach, y tu hwnt i'r hyn a gynigiwyd eisoes yn ystod proses cylch gorchwyl yr ymgynghoriad cyhoeddus, y gymuned heintiedig a'r gymuned yr effeithir arni a'u cynrychiolwyr am yr hyn y maent am i fframwaith iawndal ei roi (neu beidio ei roi) iddyn nhw.

Trafodaethau gyda'r Gymuned Heintiedig a'r Gymuned yr effeithir arni: Rwyf yn awyddus i gynnal trafodaeth barhaus gyda'r gymuned heintiedig a'r gymuned yr effeithir arni a ddechreuwyd gyda'r broses ymgynghori. Fy mwriad yw y caiff y trafodaethau hyn eu llywodraethu gan egwyddor

¹ Gellir dod o hyd i grynodeb yr ymgynghoriad a'r cylch gorchwyl diwygiedig yma: _

<https://www.gov.uk/government/publications/infected-blood-compensation-framework-study-terms-of-reference>

² Ceir gohebiaeth Syr Robert a'r Tâl-feistr Cyffredinol ynghylch y cylch gorchwyl yma: _

<https://www.gov.uk/government/publications/letters-between-the-paymaster-general-the-rt-hon-michael-ellis-qc-mp-and-sir-robert-francis-qc>

anffurfioldeb (er y caiff ei gofnodi'n briodol). Hoffwn osgoi disgwyl i'r sawl sy'n heintiedig a'r sawl yr effeithir arnynt orfod ailadrodd barn a fynegwyd ganddynt eisoes yn rhywle arall (boed i'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig neu fel rhan o'r broses ymgynghori). Bydd y sawl sy'n heintiedig a'r sawl yr effeithir arnynt eisoes wedi darparu toreth o wybodaeth am eu profiadau personol o'r trasiedi gwaed heintiedig i'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r ymgynghoriad. Bydd yr Astudiaeth yn defnyddio'r deunydd defnyddiol hwn, ond croesawaf brofiadau a barn newydd na chynigiwyd i mi'n flaenorol; yn arbennig croesawaf farn ychwanegol o safbwynt y gymuned ynghylch i ba raddau y mae'r cynlluniau cymorth presennol a hanesyddol yn Lloegr a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi bodloni anghenion parhaus y buddiolwyr.

Byddaf yn canolbwyntio fy nhrafodaethau yn y dyfodol gyda'r gymuned a rhanddeiliaid perthnasol eraill ar faterion penodol parthed creu fframwaith iawndal effeithiol a chynhwysfawr, yn arbennig byddaf yn archwilio:

- barn y gymuned am gynlluniau cymorth presennol a hanesyddol a phrofiadau o'r hyn maen nhw'n ystyried sydd wedi gweithio a'r hyn nad yw wedi gweithio; ac
- yr hyn maen nhw'n ei ystyried yn elfennau hanfodol iawndal.

Rwyf yn rhagweld y bydd proses dau gam i'r ymgysylltiad hwn sydd â rhagor o ffocws iddo:

- **cyfraniadau ysgrifenedig:** yn yr achos cyntaf, cyfle i ddarparu barn ysgrifenedig bellach yn canolbwyntio'n benodol ar y materion sy'n ymwneud ag iawndal, gan ystyried yr esboniadau a wnaed i'r cylch gorchwyl diwygiedig a'r dystiolaeth yng nghrynodeb yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nid wyf yn ceisio ailadrodd y sylwebaeth helaeth a gafwyd eisoes fel rhan o'r broses ymgynghori, ond barn ychwanegol, wedi'i mireinio nas rhannwyd eisoes. Ynghyd â'r dystiolaeth ymgynghori, bydd hyn yn galluogi fy Astudiaeth i dynnu rhestr wedi'i ffocysu o faterion ynghyd a fydd yn llunio sail trafodaethau yn ail gam yr ymgysylltiad. Nid wyf am i unrhyw gyfraniadau ychwanegol fod yn orfanwl na ffurfiol o ran eu natur, yn arbennig gan y bydd y cyfnod i gyflwyno sylwadau pellach yn dynn iawn, yn bennaf yn ystod mis Hydref a dechrau mis Tachwedd;
- **trafodaethau fforwm:** fy mwriad gydag ail ran yr ymgysylltiad hwn gyda'r gymuned yw cynnal nifer o trafodaethau fforwm grŵp a gwahoddir detholiad o unigolion a chynrychiolwyr grŵp iddynt. O ystyried y cyfyngiadau amser a gweinyddol, mae'n debygol mai dyma fydd y ffordd fwyaf effeithiol o barhau, ond byddaf yn ystyried ceisiadau unigol ar gyfer cyfarfodydd mwy unigol fel y bydd amser yn caniatáu. Dros dro, rwyf yn bwriadu cynnal fforymau ar wahân i drafod materion sy'n berthnasol i'r:
 - rhai sydd wedi'u heintio â Hepatitis C;
 - rhai sydd wedi'u heintio â HIV;
 - rhai sydd wedi'u cyd-heintio;
 - rhai sydd wedi'u heffeithio (gan ddefnyddio'r diffiniad ehangach yn y cylch gorchwyl diwygiedig)
 - rhai mewn profedigaeth.

Bwriadaf gynnal y fforymau hyn yn bennaf yn ystod mis Tachwedd (er, os bydd amser yn caniatáu, gallent ddechrau ar ddiwedd mis Hydref a pharhau tan ddechrau mis Rhagfyr).

Trafodaethau gyda Rhanddeiliaid Allweddol Eraill: Rwyf hefyd yn rhagweld ei bod yn bosibl y cynhelir fforwm tebyg i gwmpasu'r Cynrychiolwyr Cyfreithiol Cydnabyddedig a'r gymuned gyfreithiol ehangach i drafod goblygiadau cyfreithiol technegol a deddfwriaethol y dewisiadau a ystyrir gan yr Astudiaeth.

Ochr yn ochr â'r trafodaethau hyn gyda'r rhai sydd wedi'u heintio a'u heffeithio, bwriadaf gynnal cyfres o sgysiau gydag adrannau priodol y Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill sydd â diddordeb er mwyn fy nghynorthwyo i ddeall y syniadau y tu ôl i greu'r cynlluniau cymorth presennol a hanesyddol, y mecanweithiau sy'n llywodraethu ac yn gweinyddu'r cynlluniau hyn a'r polisi cyhoeddus ehangach yng nghyd-destun iawndal yn y DU. Rwyf yn rhagweld y bydd y trafodaethau hynny'n cynnwys:

- llywodraeth ganolog, yn bennaf yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ond yn ogystal, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Thrysorlys EM yn ôl yr angen;
- y gweinyddiaethau datganoledig, gyda chynrychiolwyr sydd â chyfrifoldeb am bolisi datganoledig ar gyfer gwaed heintiedig yn Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon; a'r
- cynlluniau cymorth cenedlaethol unigol presennol: EIBSS, SIBSS, Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) ac IBPSNI.

Penderfyniadau ac Argymhellion: wedi'r cyfnod dwys hwn o gyfarfodydd, byddaf yn camu yn ôl i adolygu'r holl ddeunydd a gasglwyd, tynnu casgliadau'r Astudiaeth ynghyd am y fframwaith mwyaf addas a chyflawnadwy i ddarparu'r iawndal i'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan y trasiedi gwaed heintiedig a chasglu fy argymhellion a thystiolaeth gefnogol ynghyd i'w cyflwyno i'r Llywodraeth erbyn y dyddiad terfyn fan bellaf - diwedd mis Chwefror 2022 - a nodwyd yn y cylch gorchwyl. Disgwyliaf i'r cam hwn o'r broses ddigwydd ar ddiwedd mis Rhagfyr, trwy gydol mis Ionawr ac yn ystod mis Chwefror, yn ôl yr angen.

Cyflwyniad i'r Ymchwiliad Cyhoeddus: Disgwyliaf gyflwyno fy argymhellion i'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig i'w hystyried a'u craffu.

Syr Robert Francis CF
Cadeirydd yr
Astudiaeth Iawndal Gwaed Heintiedig